Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Arbennig The Hollies
# Bryn Heulog
# Pentwyn
# CF23 7XG

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Arbennig The Hollies

Ysgol ddydd arbennig yw The Hollies, a gynhelir gan Gyngor Dinas Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae'n darparu addysg ar gyfer 102 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol wedi cael diagnosis o Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASA). Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion anawsterau ychwanegol yn ymwneud â lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Caiff disgyblion eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n cael eu pennu fwy neu lai gan eu hanghenion, eu gallu a'u hoedran, gydag amrywiad sylweddol mewn mannau cychwyn unigol. O'r herwydd, nid yw'n briodol cymharu safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol.

Mae pob un o'r disgyblion yn byw yn ardal Caerdydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig amrywiol gyda thua 11 o wahanol famieithoedd. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw ddisgyblion statws derbyn gofal. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref. Mae tua 35.5% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 42.3% ar gyfer ysgolion arbennig.

Mae'r ysgol, a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol, yn darparu gwasanaeth allymestyn i'r holl ysgolion yng Nghaerdydd. Mae'r gwasanaeth 'Cyfathrebu, Rhyngweithio a Chwarae Cymdeithasol' (SCIP) yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad i ysgolion prif ffrwd ar roi strategaethau priodol ar waith wrth weithio gyda disgyblion ag awtistiaeth mewn lleoliadau prif ffrwd.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth yn y blynyddoedd cynnar hefyd lle mae rhywfaint o orgyffwrdd mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion yn eu cartrefi ac wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol. Prosiect 'Early Bird' yw hwn. Mae'r ysgol yn darparu cymorth hefyd trwy brosiect o'r enw 'APPEAL' ar gyfer rhieni disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi'r cwricwlwm ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn The Hollies, mae bron pob un o’r disgyblion yn hapus i ddysgu ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf.  Mae hyn yn arbennig o amlwg yn natblygiad medrau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn ymgysylltu’n dda mewn gwersi.  I ychydig o ddisgyblion y mae eu hanghenion yn fwy cymhleth, nid yw eu gallu i fwrw ymlaen â thasgau wedi’i ddatblygu mor gyson.

Mae safon perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn uchel iawn.  Mae hyn, wedi’i gyfuno â dull addysgu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar ddysgu, ymddygiad a lles disgyblion.

Mae gan y pennaeth a’r tîm arweinyddiaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy’n treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol.  Maent wedi sefydlu dealltwriaeth gref o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu ac maent yn gweithio’n effeithiol gyda staff i werthuso cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod yr holl brofiadau dysgu a gynllunnir yn diwallu anghenion disgyblion â galluoedd mwy cymhleth

A3 Datblygu dull cyson o gyflwyno medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau trefniadau rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos. Bydd un ohonynt yn ymwneud â'i gwaith mewn perthynas â'r ysgol yn datblygu offeryn asesu proffil disgyblion, a'r ail yn ymwneud â'u dull yn rheoli arloesi'r cwricwlwm.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn Ysgol The Hollies. Gwnânt gynnydd hynod ddefnyddiol o ran datblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol perthnasol, sy'n eu helpu i fod yn fwy annibynnol yn eu bywydau bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r medrau cyfathrebu hyn yn dda gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys symudiadau corfforol, symbolau ac ar lafar. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r dulliau hyn yn effeithiol ac yn hyderus. Fodd bynnag, mae'r defnydd o arwyddo fel dull cyfathrebu yn anghyson ar draws yr ysgol ac yn cyfyngu ychydig iawn o ddisgyblion a allai elwa ar ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol hynod gryf trwy weithgareddau'r cwricwlwm sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp bach, gwasanaethau, ac yn bwyta gyda'i gilydd amser cinio. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd eithriadol o fuddiol i ddisgyblion wella eu medrau fel gweithio gyda phobl eraill, eistedd a rhannu sylw a datblygu eu dealltwriaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol fel rhannu byrbryd. Mae'r cynnydd a wna disgyblion ar draws meysydd fel y rhain yn rhoi medrau gwerthfawr iddynt, y maent yn eu defnyddio gartref ac yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn effeithiol ac yn cymhwyso'r rhain yn dda ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando hynod effeithiol. Maent yn ymateb yn frwd i staff, yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag ymwelwyr, ac mewn ychydig o achosion, yn rhyngweithio'n ddigymell â'i gilydd yn ystod gweithgareddau grŵp bach ac amser chwarae. Mae disgyblion yn datblygu eu geirfa'n briodol mewn gweithgaredd 'amser dewis', er enghraifft wrth enwi'r trac trenau a'r trenau mae arnynt eisiau chwarae â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol yn unol â'u gallu. Mae disgyblion ag anghenion cymhleth iawn yn mwynhau edrych ar lyfrau, maent yn pwyntio at luniau ac yn troi'r tudalennau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen testunau syml ac yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i gryfhau eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau echddygol manwl gwerthfawr, er enghraifft trwy ddysgu sut i ddefnyddio siswrn, gweithgareddau tynnu llun a ffurfio llythrennau. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae mwyafrif ohonynt yn parhau i ddatblygu medrau llawysgrifen sy'n briodol i'w gallu.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn cymryd rhan â brwdfrydedd yn ystod caneuon cyfrif fel 'five little frogs'. Maent yn mwynhau'r gân â symudiadau a'r cyfleoedd cyfrif gwerthfawr o fewn y gweithgaredd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau gweithgareddau cyfrif a pharu lliwiau tra byddant yn defnyddio ardal y pwll peli yn yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn cwblhau ymarferion adio a thynnu syml yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn dechrau cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft rhedeg sinema'r ysgol a gwerthu popgorn yn ystod y ffilm.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu amrywiaeth o fedrau annibyniaeth sy'n briodol i'w gallu ac i baratoi ar gyfer eu lleoliad ysgol uwchradd. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau mewn ystod o feysydd gofal personol fel medrau gwisgo a gwneud dewisiadau syml amser byrbryd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn effeithiol ac yn cryfhau eu galluoedd i fod mor annibynnol ag y bo modd.

O ran eu hoedran a'u gallu, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl defnyddiol. Er enghraifft, gwnaeth grŵp bach o ddisgyblion hŷn gwch ar gyfer eu gêm wrth chwarae gyda'i gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o arferion ystafell ddosbarth ac yn defnyddio amserlenni gweledol trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i ddeall a rhagweld beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau archwilio gwahanol gyfryngau, fel gweithgareddau argraffu, torri, a chelf anniben. Mae datblygiad medrau TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o eiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol. Mae'r rhai sy'n gallu ateb cwestiynau syml yn Gymraeg yn gwneud hynny, ac yn cymryd rhan mewn caneuon.

Mae'r cynnydd buddiol a wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ar draws ystod eang o fedrau yn cefnogi'r camau nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion ag anghenion cymhleth iawn yn gwneud cynnydd cyson ar draws yr holl brofiadau dysgu, yn rhannol o ganlyniad i'r diffyg profiadau dysgu perthnasol sy'n gweddu'n briodol i'w lefelau angen a gallu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol bob dydd yn barod ac yn hapus i ddysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdawelu'n gyflym yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd ganddynt bryderon. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau trwy gydol y diwrnod ysgol, er enghraifft trwy fynd ati i gymryd rhan mewn cyfnodau cofrestru, lle bo'n briodol, a chymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn amserlenni gweledol yn dda, ac o ganlyniad, maent yn dod i'r arfer ag arferion a strwythur y diwrnod. I'r disgyblion hyn, mae hyn yn eu helpu i reoli eu hymddygiadau, ymateb i sefyllfaoedd yn effeithlon, ac elwa ar gwricwlwm yr ysgol yn llwyddiannus.

Dros gyfnod, mae lefelau canolbwyntio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystod eu dysgu yn gwella. Dangosant ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o dasgau, ac maent yn magu hyder i ddechrau cyfathrebu â staff a disgyblion. Fodd bynnag, i'r disgyblion prin y mae eu hanghenion yn fwy cymhleth, nid yw eu gallu i reoleiddio a bwrw ymlaen â thasgau wedi'i ddatblygu mor gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gweithgareddau dan do ac awyr agored rheolaidd lle maent yn dysgu cydweithredu â'i gilydd a gwella eu medrau corfforol, er

enghraifft trwy sesiynau ioga wythnosol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgaredd 'cerdded dyddiol'. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn dilyn yr ymarfer rheolaidd yn gwella. Mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth hynod gadarn o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Maent yn trafod teimlo'n iach ac effaith gweithgarwch corfforol ar eu corff.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach wrth ddewis eu byrbrydau yn y clwb brecwast ac yn ystod amser cinio. Pan fo'n briodol, maent yn defnyddio symbolau neu'n mynegi eu hanghenion ar lafar yn glir ac yn hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu am eu rôl fel dinasyddion yn y byd ehangach, er enghraifft trwy nifer o ddigwyddiadau ysgol gyfan fel wythnos Water Aid, wythnos Masnach Deg a 'Diwrnod Banana'. Gydag anogaeth gan staff a rhieni, mae llawer o ddisgyblion yn profi amrywiaeth werth chweil o wahanol fwydydd a diwylliannau.

Yn ystod amseroedd chwarae, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn hapus mewn gweithgareddau, gan gynnwys reidio sgwteri, treiciau a defnyddio fframiau dringo. Mae bron pob un o'r disgyblion yn elwa ar staff yn gweithredu fel modelau rôl da i annog medrau cymdeithasol gwell. Er enghraifft, mae staff yn aml yn dangos sut i ddefnyddio offer ac yn annog disgyblion i rannu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddigynnwrf a hapus trwy gydol y dydd. Dangosant ymddygiad da yn y dosbarthiadau a'r tu allan. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu strategaethau hynod effeithiol i reoli sefyllfaoedd yn gadarnhaol a lleihau gorbryder, a allai fod wedi arwain at achosion o ymddygiad heriol yn y gorffennol.

Mae'r cyngor ysgol yn dechrau cymryd rôl fwy gweithredol yn yr ysgol ac mae'n ddyddiau cynnar o ran datblygu etholiadau disgyblion i ddewis llysgenhadon ysgol sy'n cynrychioli ystod eang anghenion y disgyblion yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at gymuned yr ysgol yn gyfyngedig.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn eithriadol o dda. O'u cyfuno â dull addysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'r rhan fwyaf o staff yn atgyfnerthu cysyniadau allweddol yn dda, sy'n cynnwys strategaethau i hyrwyddo medrau dysgu annibynnol a medrau bywyd pwysig. Caiff y dulliau hyn effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd, ymddygiad a lles disgyblion.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl iawn o anghenion disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gynllunio profiadau dysgu perthnasol a phersonoledig, sy'n canolbwyntio ar dargedau pwrpasol, heriol, ond ysgogol. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod amrywiol o asesiadau disgyblion buddiol i osod amcanion dysgu ystyrlon mewn gwersi sy'n herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff yn gwneud defnydd llwyddiannus o ddulliau cyfathrebu'r ysgol i hyrwyddo rhyngweithio effeithiol â disgyblion. Defnyddiant y technegau hyn yn fedrus i ofyn amrywiaeth o gwestiynau, sy'n profi dealltwriaeth disgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o dimau staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau cysondeb o ran cynllunio a'r ymagwedd at ddysgu disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi rhoi ymyriadau o ansawdd uchel ac addysgu strwythuredig ar waith yn llwyddiannus i helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol. Mae staff yn rheoli trosglwyddiadau ar draws yr ysgol yn fedrus gan ddefnyddio amserlenni, ciwiau gweledol a chaneuon. Caiff y cyfleoedd ar gyfer pontio eu creu'n dda gan staff, sy'n rhoi cyfleoedd dysgu go iawn a phwysig i ddisgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion wedi eu paratoi'n dda i symud o gwmpas yr ysgol a rhwng gweithgareddau yn bwyllog, er enghraifft o weithgaredd chwarae meddal bywiog i wers fwy ffurfiol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi cyffrous ac ysgogol, y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb iddynt yn dda. Er enghraifft, mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi diddorol ar gyfer dysgu yn yr awyr agored sy'n helpu disgyblion i fentro'n ofalus yn eu dysgu ac yn meithrin eu gwydnwch yn dda iawn. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw amcanion dysgu a gweithgareddau addysgu ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion mwy cymhleth yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i arweiniad therapiwtig. O bryd i'w gilydd, gall hyn arwain at ddiffyg her ac achosi i ddisgyblion ymddieithrio.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a staff cymorth yn gwneud defnydd effeithiol o strategaeth asesu ar gyfer dysgu dra datblygedig yr ysgol. Mae'r strategaeth hon yn gwobrwyo disgyblion am fodloni amcanion dysgu â '5 uchel'. Mae disgyblion yn dangos cymhelliant cryf i gasglu tocynnau 5 uchel, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgysylltu â dysgu ac yn ymddwyn yn dda.

Mae'r ysgol wedi defnyddio'i rôl fel Ysgol Arloesi Llywodraeth Cymru i gynllunio cwricwlwm arloesol a phwrpasol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae dull strategol a chadarn yr ysgol o gynllunio'r cwricwlwm wedi cynnwys cyfraniadau gan y rhan fwyaf o athrawon. Caiff y cwricwlwm ei fapio'n drylwyr ac yn effeithiol yn unol â gofynion newydd Cwricwlwm i Gymru a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Caiff bron pob aelod o staff eu bywiogi gan gwricwlwm diwygiedig yr ysgol, ac mae arweinwyr canol talentog wedi gweithio'n bendant i ddarparu fframwaith clir, tymor hir, er mwyn ymateb yn effeithiol i'r newid ym mhoblogaeth neu gyd-destun yr ysgol.

Megis dechrau cael ei roi ar waith y mae cwricwlwm newydd ac uchelgeisiol yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu proffiliau disgyblion effeithiol sy'n cysylltu'n dda â fframweithiau llythrennedd, rhifedd ac olrhain digidol a fframweithiau 'Dysgu i Ddysgu' o ansawdd uchel, a ddatblygwyd gan yr ysgol. O ganlyniad, mae ansawdd y targedau a osodir ar gyfer cynlluniau addysg unigol (CAU) disgyblion yn dda iawn, yn bersonoledig a heriol.

Mae'r ysgol yn gwella'r cwricwlwm â gweithgareddau cyfoethogi effeithiol, sy'n cael eu cynllunio ar y cyd gan staff. Er enghraifft, ar y diwrnod cyfoethogi difyr am yr Ail Ryfel Byd, trwythwyd disgyblion mewn profiadau dysgu go iawn gwerthfawr. Yn ychwanegol, mae safon gwaith yr ysgol gyda phrosiect ffilm cenedlaethol yn eithriadol o uchel. Mae disgyblion yn mynd ati'n dda i greu ffilmiau gan wneud defnydd creadigol o frics adeiladu, dilyniant a dylunio cymeriadau. Mae'r gwaith hwn yn gryfder nodedig gan yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu cyfathrebu, annibyniaeth disgyblion a'u medrau byw yn annibynnol yn gryfder gan yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr a buddiol i ddisgyblion hŷn gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau mewn sefyllfaoedd go iawn yn y gymuned leol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, ni chaiff pob un o'r disgyblion gyfle i elwa ar yr ymweliadau addysgol buddiol hyn.

Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddysgu a chymhwyso medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau gwerth chweil mewn gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda i drosglwyddo profiadau dysgu uniongyrchol o'r tywydd i siart cyfrif a gofnodwyd trwy gydol yr wythnos. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn gyson ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae The Hollies yn ysgol ofalgar iawn sy'n meithrin lles ei disgyblion yn eithriadol o dda. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o dda, ac mae'r ysgol yn eu defnyddio'n sensitif i gefnogi anghenion dysgu ac anghenion emosiynol disgyblion yn gynhwysfawr.

Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o systemau yn effeithiol i fonitro lles ac olrhain y cynnydd a wna disgyblion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn parhau i fireinio'r systemau hyn i adlewyrchu cynnydd disgyblion yn fwy cywir. Mae staff yn gweithio'n rheolaidd gyda rhieni i nodi targedau dysgu addas ar gyfer disgyblion. Mae'r targedau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol disgyblion, ac yn datblygu gweithgareddau synhwyraidd, lle bo'n briodol. Mae staff yn defnyddio dyddiaduron cartref ac ysgol yn effeithiol. Maent yn rhoi diweddariadau dyddiol i rieni ar yr hyn y mae disgyblion wedi'i fwynhau a'i ddysgu yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni bob amser, er enghraifft gwybodaeth am yr hyn y mae eu plant wedi'i fwyta. Mae adroddiadau blynyddol yn ddathliadol ac yn rhoi adroddiad da iawn i rieni am fwynhad a chyfranogiad disgyblion mewn dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan weithredol mewn llunio proffiliau un dudalen amdanyn nhw eu hunain. Mae'r proffiliau hyn yn cofnodi'n dda beth sy'n gwneud disgyblion yn hapus, eu hoffterau a sut orau y gall staff eu cefnogi. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio TGCh yn effeithiol iawn i greu proffiliau sydd wedi eu personoli iddyn nhw gydag arch-arwyr neu ddelweddau o ddiddordebau arbennig, er enghraifft.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cinio mewn un eisteddiad ar gyfer disgyblion. Cyflwynwyd y dull hwn yn sensitif fel bod disgyblion yn arfer bwyta a chymdeithasu â disgyblion eraill. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol hefyd ar gyfer disgyblion y mae eu hanghenion synhwyraidd yn gwneud bwyta a chymdeithasu mewn grwpiau mwy yn heriol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol sydd ar gael iddynt. Mae'r gwaith partneriaeth effeithiol hwn yn cefnogi'r gwelliant yng ngwybodaeth a medrau staff ar draws ystod eang anghenion y disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod â chydweithwyr o faes iechyd yn rheolaidd i adolygu a

chynllunio ar gyfer anghenion ehangach y disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae mynd i weld y deintydd a meddygon yn gallu creu gorbryder sylweddol i ddisgyblion, yn enwedig i'r rhai ag awtistiaeth. Mae staff yn The Hollies yn rhoi amserlenni gweledol defnyddiol iawn i ddisgyblion er mwyn eu paratoi ar gyfer yr ymweliadau hyn. Mae Mr Potato Head, er enghraifft, yn sbarduno ymweliad gan y meddyg ysgol. Mae'r dull hwn yn helpu i leihau gorbryder posibl.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd ac adnoddau defnyddiol ar gyfer rhieni, sy'n amlinellu'n glir y dulliau a ddefnyddir gan staff. Mae hyn, er enghraifft, yn cynnwys hyfforddiant mewn awtistiaeth, y cwricwlwm, a'r cymorth sydd ar gael yn The Hollies.

Mae staff yn defnyddio gwasanaethau ysgol a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o agweddau ac ymddygiadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am gysyniadau pwysig fel cyfeillgarwch a maddeuant, yn ogystal â gwahanol fathau o ffydd ac arferion eu ffrindiau ysgol.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n ddefnyddiol at fywyd y disgyblion ac mae ei gwaith yn cysylltu'n dda â gweithgareddau dysgu. Mae aelodau'r cyngor ysgol wedi nodi bod angen gwella'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored a chynyddu ystod yr adnoddau iddynt eu defnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor ysgol yn cynrychioli pob un o'r disgyblion, ac nid yw ei waith wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn cynnal clwb ar ôl yr ysgol a chlwb gwyliau sefydledig. Yn ystod y sesiynau hyn, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwerth chweil, yn cynnwys coginio, celf a chrefft a therapi.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ar y cyfan, er bod angen gwella'r ffordd y caiff traffig ei reoli o gwmpas safle'r ysgol o hyd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth wedi hyrwyddo gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar arwyddair yr ysgol, sef 'Dysgu i ffynnu' ('Learning to flourish'). Mae ei gweledigaeth yn canolbwyntio'n gryf ar roi i ddisgyblion y medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i reoli eu bywydau mor annibynnol ag y gallant, a byw bywydau hapus a llwyddiannus. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol ac yn sicrhau bod staff ar draws yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth ar y cyd o ddiben eu rolau o ran cefnogi dysgu a lles disgyblion.

Yn y cyfnod cymharol fyr ers eu penodi, mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu dealltwriaeth drylwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar gyfer yr ysgol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i werthuso gwaith yr ysgol a chynllunio gwelliannau addas i ddarpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi gwneud newidiadau buddiol i gwricwlwm ac amserlenni'r ysgol, a CAUau disgyblion, i hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio'n fawr ar yr unigolyn o ran cynllunio a dysgu athrawon. Yn unol â hyn, mae'r ysgol wedi adolygu ei systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion i sicrhau eu bod yn cofnodi'r hyn sy'n

bwysig i bob disgybl mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol. Megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae llawer o'r mentrau hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith.

Mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau effeithiol er mwyn gallu rhedeg yr ysgol yn esmwyth o ddydd i ddydd. Mae cyfarfodydd rheolaidd a'r defnydd effeithlon o fewnrwyd yr ysgol yn sicrhau bod pob un o'r staff yn wybodus am waith yr ysgol a'u bod yn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer arweinyddiaeth trwy benodi arweinwyr ar gyfer y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a meysydd y cwricwlwm. Mae'r dull hwn yn helpu darparu dosbarthiad cynaliadwy o gyfrifoldebau, yn datblygu medrau a dealltwriaeth staff, ac yn hyrwyddo gwaith tîm ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cryfhau systemau i ymgynghori â staff a rhieni i lywio'i hunanwerthuso. Mae'r ymgysylltu hwn wedi helpu gwella agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Er enghraifft, yn dilyn adborth gan rieni, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau buddiol i'w phecyn dysgu gartref. Mae gan yr ysgol brosesau sicrhau ansawdd addas i werthuso safonau a darpariaeth a llywio'r ffordd y mae'n cynllunio datblygiad. Maent yn cynnwys cyfarfodydd staff rheolaidd, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella, er enghraifft ansawdd a chysondeb asesiadau athrawon o waith disgyblion. Mewn ychydig o achosion, nid yw gweithgareddau sicrhau ansawdd yn nodi cryfderau na meysydd i'w datblygu yn glir i gefnogi cynllunio gwelliant pellach.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau buddiol gydag ystod eang o sefydliadau i wella'r cyfleusterau yn yr ysgol ac ymestyn y profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion. Er enghraifft, mae ymglymiad yr ysgol mewn prosiect ffilm cenedlaethol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cyfathrebu ac animeiddio. Mae gwasanaeth allymestyn yr awdurdod lleol, sydd wedi'i leoli yn yr ysgol, yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ifanc ag awtistiaeth, yn ogystal ag ar gyfer rhieni a gofalwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae gan yr ysgol systemau addas i reoli perfformiad staff addysgu, a diwallu eu hanghenion dysgu proffesiynol. Mae targedau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau strategol yr ysgol ac yn helpu nodi'r hyfforddiant ychwanegol perthnasol sydd ei angen i'w helpu i gyflawni eu rolau. Caiff diwrnodau dysgu proffesiynol eu cynllunio'n dda, ac maent yn sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfarfod, trafod a myfyrio ar strategaethau sy'n cefnogi meysydd yr ysgol i'w gwella. Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i ychydig o gynorthwywyr addysgu arsylwi arfer mewn ysgolion arbennig eraill. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae dull strategol o reoli perfformiad a datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Caiff llywodraethwyr wybodaeth reolaidd a defnyddiol am lawer o agweddau ar waith yr ysgol. Mae cadeirydd ac is-gadeirydd y llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn aml. Mae hyn yn galluogi'r corff llywodraethol i roi cefnogaeth gref i'r ysgol a lefel effeithiol o her mewn meysydd fel adnoddau ac iechyd a diogelwch.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus.  Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro gwariant yn ystyriol i gefnogi blaenoriaethau strategol yr ysgol.  Mae'r dull hwn wedi galluogi'r ysgol i wneud gwelliannau buddiol i amgylchedd dysgu'r ysgol, er enghraifft adnewyddu sinema'r ysgol, yr ystafell dysgu digidol, a datblygu ardal ddysgu yn yr awyr agored.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn staff addysgu, staff cymorth a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â gwersi, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2019